




Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**diverse**  
**cymru**  
Promoting equality for all  
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

# Ailysgrifennu'r Sgript

Crynodeb Gweithredol  
o Adroddiad Amrywiaeth  
yn y Diwydiant Ffilm a  
Theledu gan Diverse  
Cymru, wedi'i ariannu gan  
Lywodraeth Cymru

# diverse cymru

307-315 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen  
Caerdydd  
CF5 1JD

029 2036 8888

[diversecymru.org.uk](http://diversecymru.org.uk)

Elusen Gymreig unigryw yw Diverse Cymru, sy'n ymroddedig i gefnogi pobl sy'n wynebu anghydraddoldeb a gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredoau, rhyw ac ymlyniad rhywiol.

Rhagair	04
Trosolwg o'r prosiect	05
Profiadau personol unigolion	06
Canfyddiadau am dangynrychiolaeth	09
Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth	10
Recriwtio a chyfranogiad yn y diwydiant	12
Digwyddiadau ymgysylltu a chyfweliadau gyda mudiadau	13
Argymhellion	15

Nid yw'r problemau gyda chynrychiolaeth, na'r rhwystrau – rhai gwir a rhai canfyddedig – rhag ymgysylltu a manteisio ar gyfleoedd a wynebir gan bobl leiafrifol a rhai ar ffiniau cymdeithas sy'n dymuno gweithio yn y diwydiannau creadigol yn rhai newydd nag yn rhai unigryw. Dros y degawdau diweddaraf mae llawer o waith wedi'i wneud i geisio dod a chytbwysedd i'r annhegwch hwn a chyfrannu at ddymchwel rhai o'r rhwystrau hyn.

Er mai llwyddiannau cymysg a gafodd y gwaith hwn, mae wedi creu cyfle i rywun dynnu'r syniadau a'r delfrydau a ysbrydolodd y gwaith hwn ynghyd ac adeiladu arnynt. Pan gawsom ein comisiynu gan Dîm Sector y Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru i gynnal prosiect ymchwil a chodi ymwybyddiaeth am oresgyn anghydraddoldeb o fewn y diwydiant ffilm a theledu, roedd yn glir mai dyma'n cyfle i wneud gwahaniaeth.

Gyda'r project hwn, roeddem yn estyn allan at unigolion a oedd wedi wynebu gwahaniaethu, at unigolion a oedd wedi goresgyn gwahaniaethu, at fudiadau cefnogol, at gyllidwyr ac at y diwydiant ei hunan drwy gyfres o grwpiau ymgysylltu, cyfweliadau ac arolwg cynhwysfawr.

Diolch i barodrwydd pobl i rannu gyda ni, i siarad yn agored, yn onest ac yn rhydd wrth barchu'r arwyddocâd emosiynol a'r baich diwylliannol o nifer o'r materion dan sylw, llwyddom i greu cyfres o argymhellion i helpu i ddwyn ynghyd Llywodraeth Cymru, y diwydiannau ffilm a theledu, a'r potensial o dalent newydd o flaen a thu ôl i'r camera.

Gall yr argymhellion hyn helpu i godi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb, darparu atebion a helpu unigolion a'r diwydiant ei hun gael yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i helpu i wireddu'r weledigaeth o gydraddoldeb go iawn, gyda chronfa dalent wedi'i hymgysylltu, sy'n greadigol ac yn amrywiol ac sy'n adlewyrchu gwir gyfoeth amlddiwylliannol Cymru.

Ar ran Diverse Cymru hoffwn estyn fy niolch diffuant i Lywodraeth Cymru a'r mudiadau eraill a gynigodd eu cefnogaeth, arweiniad a chymorth yn ogystal â fy niolchgarwch i bob un a gymerodd ran yn y prosiect.

**Michael Flynn**

Cyfarwyddwr Partneriaethau a Dylanwadu

**diverse** cymru

# Trosolwg o'r prosiect

Yn 2015, comisiynwyd Diverse Cymru gan Dîm Sector y Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwil annibynnol ar amrywiaeth yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru. Fel mudiad trydydd sector annibynnol, mae gan Diverse Cymru arbenigedd mewn herio gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb ledled Cymru.

## Nodau

Roedd y prosiect yn anelu at gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am dangynrychiolaeth yn y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru.

Aethom ati i gasglu a dadansoddi barnau aelodau o'r cyhoedd yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r datrysiadau.

Edrychom ar y nodweddion cydraddoldeb canlynol:

- Oedran (pobl hŷn a phobl iau)
- Anabledd
- Ailbennu Rhyw
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol.

Drwy gydol y prosiect casglom farnau, profiadau a syniadau unigolion ledled Cymru a rhai'r mudiadau sy'n gweithio gyda nhw.


Defnyddiwyd tri dull penodol i gasglu barnau:

- Dyluniwyd digwyddiadau ymgysylltu er mwyn casglu barnau unigolion a mudiadau.
- Dyluniwyd arolwg er mwyn casglu barnau a phrofiadau unigolion amrywiol a oedd wedi gweithio yn neu'n ceisio bod yn rhan o'r diwydiant.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda mudiadau hefyd.

# Profiadau personol unigolion

Cadarnhaodd bron dwy ran o bump o ymatebwyr yr arolwg (39.1%) eu bod nhw neu rywun yr oedden nhw'n eu hadnabod wedi cael anhawster yn y diwydiant oherwydd eu cefndir amrywiol. Dywedodd 30.4% nad oeddent wedi cael profiad o'r fath, tra bod 28.3% yn ansicr a oedden nhw neu rywun yr oedden nhw'n eu hadnabod wedi cael anawsterau.

## Ydych chi neu rywun rydych yn eu hadnabod wedi profi gwahaniaethu?



### Beth ddigwyddodd?

Gofynnwyd i unigolion a oedd wedi dweud eu bod wedi cael anawsterau "Beth ddigwyddodd?" ynghylch y sefyllfa honno. Y themâu allweddol oedd:

- gwahaniaethu a bwlio
- cyfleoedd wedi'u gwrthod
- diffyg dealltwriaeth am anghenion mynediad
- diffyg diddordeb mewn amrywiaeth
- effaith ar yr unigolyn
- ansicrwydd a oedden nhw wedi profi gwahaniaethu ai peidio.

"Adnabod nifer o actorion talentog gydag anawsterau dysgu sy'n ei chael yn anodd cael eu castio."

"Cefais fy nhrin yn dda iawn o ran y rôl, ond nad oedd unrhyw ddealltwriaeth nad oedd yr oriau yn gynaliadwy i mi o gwbl."

"Mae yna ffocws ar blesio'r mwyafrif ond nid ar gynrychioli'r amrywiaeth."

### Sut y gwnaeth hyn i chi deimlo?

Teimlodd unigolion a oedd wedi profi gwahaniaethu yn y diwydiant:


- heb eu gwerthfawrogi neu'n ddiwerth
- rhwystredig
- yn gaeth neu'n ynysig
- yn dda i ddim
- nad oedd neb eu heisiau
- yn siomedig.

### Sut y gwnaeth hyn i chi deimlo?

Gofynnwyd i unigolion a oedd y sefyllfa wedi'i datrys. Cafodd y canlyniadau eu categoreiddio yn brofiadau cadarnhaol, niwtral a negyddol. Roedd 70.0% o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi cael profiadau negyddol ac nid oedden nhw'n teimlo bod gwahaniaethu wedi cael ei ymdrin ag o.

"Siomedig, wedyn roedd hyder yn cael cnoc ac mae'n llawer anoddach rhoi cynnig arall arni."

### Gafodd y sefyllfa ei datrys?



“Penderfynais nad oedd cynhyrchu ar gyfer teledu yn iawn i mi ac fe adawais a mynd i weithio mewn meysydd eraill yn y diwydiant.”

“Dywedwyd wrthyf (yn anffurfiol) mai dyna fel mae pethau.”

### **Beth oedd yn dda am sut gafodd y sefyllfa ei thrin?**

Dywedodd saith o unigolion a oedd wedi profi gwahaniaethu nad oedd “unrhyw beth” neu ychydig iawn yn dda am y sefyllfa. Dywedodd eraill nad oedd y sefyllfa ei datrys a’i bod dal ar y gweill.

Soniodd tri unigolyn am brofiadau cadarnhaol, yn enwedig meddylfryd cadarnhaol am y diwydiant a theimlo fod ganddyn nhw gyfleoedd yn eu dyfodol.

### **Sut y gallai’r sefyllfa fod wedi cael ei hymdrin â hi’n well?**

Gofynnwyd i gyfranogwyr “Sut y gallai’r sefyllfa fod wedi cael ei hymdrin â hi’n well?” Mae’r awgrymiadau a wnaethon nhw wedi’u grwpio fel a ganlyn:

- trafodaeth onest gyda chynrychiolwyr y diwydiant
- rhagor o gyfleoedd
- herio cynrychiolaeth ystrydebol
- mudiadau’n fwy agored i syniadau
- dylai lleiafrifoedd gael creu rhaglennu
- ymddiheuriadau gan staff a herio gwahaniaethu
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda’r rhai yn y diwydiant, a
- mynd i’r afael â rhwystrau hygyrchedd ac anghenion mynediad unigolion.

### **Sut y gellid bod wedi atal y sefyllfa hon yn y lle cyntaf?**

Roedd unigolion yn tueddu i roi’r bai arnyn nhw’u hunain bod y sefyllfa wedi codi yn y lle cyntaf er gwaethaf rhwystrau yn y gweithle a oedd yn bodoli eisoes.

Roedd ymatebwyr eisiau cynrychiolaeth amrywiol nad yw’n docynistaidd. Gofynnwyd am fwy o ffocws ar anghenion cymunedau amrywiol.



# Canfyddiadau am dangynrychiolaeth

Dywedodd chwech o'r saith mudiad a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn cytuno bod tangynrychiolaeth yn bodoli yn y maes ffilm a theledu.

Dywedodd 73.9% o unigolion bod tangynrychiolaeth yn y diwydiant. Dywedodd 15.2% arall "yn rhannol".

"Dydw i ddim yn gweld fy hun yn cael fy nghynrychioli ar y teledu ar hyn o bryd."

## **Pam rydych chi'n meddwl bod tangynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd amrywiol yn y diwydiant ffilm a theledu?**

### **Mudiadau**

Roedd mudiadau'n gyffredinol yn teimlo bod tangynrychiolaeth yn bodoli oherwydd diffyg unigolion talentog o grwpiau amrywiol yn ymgeisio am swyddi; canfyddiad nad yw'r diwydiant yn agored i ymgeiswyr newydd; rhy ychydig o gyfleoedd neu ddiffyg gwybodaeth am gyfleoedd; amddifadedd economaidd-gymdeithasol; ac amharodrwydd i newid y status quo.

### **Unigolion**

Nododd unigolion yr holl themâu hyn, heb law diffyg talent amrywiol, ac amlygwyd nifer o themâu ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys nepotistiaeth; diffyg diddordeb mewn grwpiau amrywiol; pobl o gefndiroedd amrywiol a difreintiedig ddim yn cael yr un cyfleoedd; costau a chefnidir economaidd-gymdeithasol; rhagfarn o dan yr wyneb a gwahaniaethu sefydliadol; siaradwyr Cymraeg yn profi gwahaniaethu wedi'i ddwysau; a rhaglenni sy'n cynrychioli cymunedau amrywiol ddim yn cael eu comisiynu.

# Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth

Gofynnwyd i fudiadau ac unigolion oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg beth ellid ei wneud i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

## Mudiadau

### **Ble mae tangynrychiolaeth yn digwydd, sut rydych chi'n meddwl y gellir gwella'r sefyllfa?**

Meysydd allweddol ar gyfer gwelliant a soniwyd amdanynt gan fudiadau oedd:

- addysg – llwybrau gyrfa cysylltiol, profiad gwaith o safon a chysylltu gyda chymunedau
- mudiadau'n cyfleu eu hamrywiaeth
- defnyddio gweithredu cadarnhaol
- herio canfyddiadau: ymgyrchoedd a newid diwylliant
- mynediad agored i'r diwydiant
- anogaeth i ddechreuwyd newydd o bob cefndir.

### **Pa gamau y mae'ch mudiad chi wedi'u cymryd i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, un ai o'r blaen neu ar hyn o bryd?**

Mae cyfleoedd i unigolion gymryd rhan yn boblogaidd dros ben gyda mudiadau.

Siaradwyd am ddod o hyd i a sicrhau cyfleoedd, gweithdai, grwpiau lleol, profiad gwaith, prentisiaethau, cefnogaeth a mentora ar gyfer unigolion.

Mae rhwydweithiau a rhaglenni talent yn ddulliau eraill a ddefnyddir i ymdrin â thangynrychiolaeth.

Soniwyd hefyd am gysylltu, gwrandao ar, a rhwydweithio gyda chymunedau amrywiol.

Roedd cydweithio, magu hyder, a chynnig gwahanol leisiau a phrofiad yn fanteision canfyddedig.

### **Oes yna unrhyw gefnogaeth arall rydych chi'n meddwl gallai gynorthwyo'ch mudiad i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth?**

Roedd galw am gael dulliau mwy cydgysylltiedig ar draws amrywiol gyrff y diwydiant diwylliannol a chreadigol. Teimlwyd hefyd bod rhannu arbenigedd, arfer da a chefnogi ac annog unigolion amrywiol yn bwysig.

## Unigolion

Yn yr un modd, atebodd unigolion y cwestiwn “Pan mae tangynrychiolaeth yn digwydd mewn ffilm neu ar y teledu, sut rydych chi’n meddwl y gellir ei newid?” Nododd unigolion nifer o’r un atebion a mudiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- rhagor o gymeriadau amrywiol
- rhoi amrywiaeth gyntaf
- tynnu rhwystrau systemig
- newid i gyfansoddiad y gweithlu presennol
- comisiynu gwaith wedi’i greu gan unigolion a chymunedau amrywiol
- ymgysylltu gweithredol gydag unigolion a chymunedau
- creu cronfeydd talent amrywiol
- addysgu’r diwydiant am fanteision amrywiaeth
- gweithredu cadarnhaol
- rhagor o gyfleoedd a rhestrau byr.

### **Pa gamau allai mudiadau eu cymryd i fynd i’r afael â thangynrychiolaeth?**

Teimlai unigolion bod angen am:

- gomisiynu ac ysgrifennu ar gyfer cymunedau amrywiol;
- gweithio gyda chynrychiolwyr a gyda’r gymuned
- cyflwyno modelau rôl
- chwilio am a recriwtio unigolion amrywiol rhagweithiol
- gweithredu cadarnhaol – dylid annog unigolion i ddod i mewn i’r diwydiant
- rhagor o wybodaeth llwybr gyrfa
- rhagor o gyfleoedd a rhestrau byrion
- mwy o gefnogaeth i’r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol llai cefnog
- a galw ar fudiadau i gael canrannau, meini prawf neu gwotâu o ran amrywiaeth yn eu gweithluoedd.

# Recriwtio a chyfranogiad yn y diwydiant

Gofynnwyd i fudiadau ac unigolion a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg am eu barnau am brosesau recriwtio a chael rolau o fewn y diwydiant.

Holwyd mudiadau am eu dulliau recriwtio, y rhwystrau, yr atebion a pha gamau a ellid eu cymryd i'w cefnogi'n well yn y dyfodol.

Holwyd unigolion am eu sylwadau am ba gefnogaeth a fyddai'n eu helpu nhw i fod yn rhan o'r diwydiant ffilm a theledu.

## Mudiadau

### **Pa gefnogaeth fyddai yn eich helpu chi recriwtio, cefnogi a chadw pobl o gefndiroedd amrywiol?**

Soniodd mudiadau bod ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, recriwtio o ffynonellau amrywiol, mentora a hyfforddiant ar gyfer darpar ymgeiswyr, ac arferion gweithio hyblyg yn hanfodol.

Roedden nhw'n awgrymu'r cymorth canlynol:

- cronni profiadau ac awgrymiadau ymarferol i gyflawni newid diwylliant
- cronfa ddata a rennir o hyfforddeion a newydd-ddyfodiaid
- cysylltiadau â chymunedau amrywiol
- mae cysylltiadau â chwmnïau o Gymru yn cael eu gweld fel hynod o bwysig
- strategaethau ar gyfer cyhoeddusrwydd, cyngor a chyflwyniadau i ennyn diddordeb pobl amrywiol, ac
- mae sefydliadau yn fodlon cynnig lleoliadau profiad gwaith, cynnal ymweliadau anffurfiol ac ati.

## Unigolion

### **Pa gefnogaeth fyddai'n eich cynorthwyo chi i gymryd rhan yn y diwydiannau ffilm a theledu?**

Rhodddwyd amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn, ac mae llawer ohonyn nhw'n cytuno â'r awgrymiadau gan fudiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- canllawiau, cymorth ymarferol, gweithio'n hyblyg, ac ymagwedd lai traddodiadol i recriwtio
- cynnydd mewn clyweliadau, cysgodi a chyfleoedd rhwydweithio
- rhagor o wybodaeth am gyfleoedd a hyfforddiant
- cyllid i gefnogi unigolion yn y diwydiant, a
- gwranddo ar gymunedau amrywiol a'u cynnwys.

Crynhodd un ei brofiad fel "Dim ond [eisiau] cael fy nhrin yr un fath a phawb arall heb gael fy ngweld fel rhyw ryfeddod neu fel rhywun 'gwahanol'."

# Digwyddiadau ymgysylltu a chyfweliadau gyda mudiadau

Drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu a chyfweliadau, cafwyd adborth gweithwyr yn y diwydiant, mudiadau sy'n gweithio yn y diwydiant a mudiadau sy'n cynorthwyo unigolion amrywiol yn y diwydiant. Cafodd y pynciau allweddol a godwyd eu dadansoddi a'u coladu.

## **Nodweddion**

Diffiniodd un mudiad amrywiaeth fel "gwir adlewyrchiad o ddiwylliant Cymreig a thrigolion Cymru".

Roedd mudiadau'n dod ar draws problemau penodol wrth fynd i'r afael â thangynrychiolaeth pobl anabl, pobl BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig), menywod, gofalwyr, a'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Roedd cyfranogwyr yn ystyried bod oriau gwaith hir yn cael effaith andwyol dros ben ar les ac ar iechyd meddwl.

Teimlai mudiadau bod angen gwella amrywiaeth a chyfleoedd ymhlith siaradwyr Cymraeg.

Awgrymodd mudiadau bod angen i gyflogwyr roi gwybod i bobl eu bod yn agored i bob cais. Dylai castio fod yn gynrychioliadol o gymdeithas Gymraeg a dylai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd fod ar gael. Mae angen gwella mynediad at gyrsiau a lleoliadau gwaith.

## **Monitro a chwotâu**

Teimlai mudiadau bod diffyg data yng Nghymru yn rhwystr. Nid yw rhai mudiadau yn monitro amrywiaeth. Gwelir diogelu data fel rhwystr ar gyfer rhannu gwybodaeth. Awgrymodd mudiadau y dylai monitro fod yn orfodol wrth recriwtio ac mae potensial i ddatblygu safon amrywiaeth.

## **Recriwtio: Hysbysebu, cyfweld a gwahaniaethu cadarnhaol**

Dywedodd un mudiad nad ydyn nhw'n cael cronfa ymgeiswyr gwbl gynhwysol i ddewis o'u mysg a bod y diwydiant yn dal i gyflwyno unigolion i i'r diwydiant trwy gyfrwng dull "pwy sy'n nabod pwy".

Gofynnodd mudiadau am ragor o wybodaeth ar gyfleoedd cyfartal a chwestiynau cyfweliad priodol. Awgrymodd rhai mudiadau bod gweithredu cadarnhaol a chymorth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn bwysig.

Un awgrym allweddol oedd am yr angen i fudiadau yn y diwydiant dyrchu er mwyn darganfod pam nad ydyn nhw'n cael mwy o gyfranogiad amrywiol a pham nad yw rhai pobl yn ymgeisio.

**“Mae hyn i’w wneud efo holi’r cwestiynau yma yn y lle cyntaf.”**

### **Addysg a mentrau**

Dywedodd mudiadau sy’n cefnogi unigolion i ddod i mewn i’r diwydiant eu bod yn ymgysylltu gydag unigolion, ond wedyn mae prinder yn y nifer o swyddi sydd ar gael fel dilyniant i’w sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Teimlwyd bod cysylltiadau gyda sefydliadau addysg yn allweddol – o’r ysgol gynradd hyd at addysg uwch. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod cael llwybrau gyrfa a gwybodaeth am gyrsiau a chyfleoedd perthnasol ar y cyd â chyngor gyrfâu manwl yn bwysig.

Ar ben hyn, gofynnodd mudiadau am hyfforddiant sgiliau creadigol a diwylliannol i staff cyflogwyr y diwydiant. Soniwyd am ddiffyg cyllid fel rhwystr allweddol rhag gwneud gwelliannau a pharhau gyda mentrau.

Mae argymhellion wedi'u seilio ar yr atebion mwyaf cyffredin a awgrymwyd gan unigolion a mudiadau drwy gydol y prosiect a'r adroddiad hwn.

Mae'r rhain wedi'u grwpio yn ôl thema neu'r mater y maen nhw'n ymdrin ag ef. Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys gweithredoedd manwl i weithredu ar bob argymhelliad. Nid yw'r argymhellion na'r gweithredoedd wedi'u gosod allan yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r argymhellion yn cyfannu ei gilydd a dylid eu cyflawni oll yn gydamserol.

## **Cyfleoedd**

Argymhelliad 1: Darparu gwybodaeth a chefnogaeth wedi'i dargedu i unigolion o gymunedau amrywiol ynghylch dod o hyd i a sicrhau cyfleoedd.

## **Recriwtio**

Argymhelliad 2: Dylai cyflogwyr yn y diwydiant ffilm a theledu ddefnyddio gweithredu cadarnhaol a newid ymarferion recriwtio i ddiddymu'r rhwystrau presennol. Dylai cyflogwyr asesu os yw eu harferion recriwtio yn gyfartal i bawb a chyd-gynhyrchu atebion i fynd i'r afael â rhwystrau gyda grwpiau cymunedol ac arweinwyr cymuned o gymunedau amrywiol.

## **Addysg**

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at sicrhau bod addysg, gwybodaeth, a chyingor gyrfâu am yr ystod eang o yrfâu yn y diwydiant yn yr ysgol, coleg, addysg uwch a'r gymuned; a bod cyrsiau yn cael eu hanelu at anghenion y diwydiant.

## **Cyfranogiad a chynrychiolaeth y Gymuned**

Argymhelliad 4: Dylai mudiadau'r diwydiant gynnwys, cysylltu â chynnal cysylltiadau gyda chymunedau amrywiol, yn ogystal â mudiadau ac arbenigwyr sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd amrywiol. Dylai'r gefnogaeth i gyd gael ei gyd-gynhyrchu gydag unigolion amrywiol a chynrychiolwyr cymunedol.

Community involvement and representation

## **Gweithio ar y cyd a rhwydweithiau**

Argymhelliad 5: Cefnogi datblygiad rhwydwaith a chynhadledd amrywiaeth yn y diwydiant ffilm a theledu penodol ar gyfer Cymru. Datblygu rhwydweithiau talent amrywiol.

Argymhelliad 6: Dylid datblygu'r gronfa ddata Sgrîn Cymru yn siop un stop i gyflogwyr gael darganfod a rhwydweithio gyda gweithwyr newydd, amrywiol.

## Addressing specific barriers

Argymhelliad 7: Dylai mudiadau yn y diwydiant ffilm a theledu weithio gyda'i gilydd a gyda grwpiau cymunedol i fynd i'r afael yn rhagweithiol â rhwystrau penodol i grwpiau a chymunedau, gan gynnwys pobl BME, siaradwyr Cymraeg, pobl anabl, menywod, pobl hŷn, pobl iau a phobl sy'n dioddef anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

## Datblygu canllawiau a safonau

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibiliad o ddatblygu safon amrywiaeth yn arbennig ar gyfer y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru.

## Cyllid

Argymhelliad 9: Cefnogi datblygiad cyllid ar gyfer unigolion sydd wedi'u tangynrychioli, a mudiadau'r diwydiant sy'n ceisio cynyddu amrywiaeth.

## Cyfleoedd a chefnogaeth

Gallwch hefyd ddysgu rhagor am amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael i unigolion, busnesau a mudiadau ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys cyngor a gwybodaeth am gyllid, hyfforddiant, addysg, prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwaith. Ceir manylion o [diversesecymru.org.uk/cy/amrywiaeth-mewn-teledu-ffilm/](https://diversesecymru.org.uk/cy/amrywiaeth-mewn-teledu-ffilm/)

## Arweiniad ar fonitro amrywiaeth

Cynhyrchodd Diverse Cymru Adnodd Cydraddoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru. Ymysg nifer o bynciau, mae'n cynnwys monitro ac amrywiaeth. Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau i fudiadau am pam mae monitro amrywiaeth yn bwysig a sut mae ei wneud yn dda.

Mae'r adnodd ar gael yma:

[www.arts.wales/what-we-do/online-equality-guide/monitro-pwy-syn-dod-i-weld-eich-gwaith](https://www.arts.wales/what-we-do/online-equality-guide/monitro-pwy-syn-dod-i-weld-eich-gwaith)